**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG A GWASANAETHAU IEUENCTID (PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU PWNC 1 YN FLAENOROL)- DYDD IAU, 2 GORFFENNAF 2026**

COFNODION CYFARFOD O'R PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG A GWASANAETHAU IEUENCTID GYNHALIWYD HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB YMLAEN DYDD IAU, 2 GORFFENNAF 2026 YN 11:00

Presennol

Y Cynghorydd H Griffiths – Cadeirydd

| | |
|---|---|
| HJ David | T Thomas |

Presennol O Bell

| | | | |
|---|---|---|---|
| JPD Blundell | S Easterbrook | N Farr | D M Hughes |
| R J Smith | AJ Williams | E D Winstanley | |

Gwahoddedigion:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Martyn Jones | Aelod y Cabinet dros Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Tanya Smith | Pennaeth Strategaeth, Blynyddoedd Cynnar ac Ieuenctid |
| Mattew Evans | Rheolwr Tîm – Gwasanaethau Arlwyo |
| Stacey Forde | Pennaeth Perfformiad a Newid Diwylliant y Gweithlu |
| Lauren Saunders | Cydlynydd Bwyd Cynaliadwy |
| Rachel Morgans | Swyddog Cymorth Prosiect Bwyd Cynaliadwy |

Penaethiaid:

| | |
|---|---|
| Ryan Davies | Pennaeth, Ysgol Gyfun Brynteg |
| Neil Pryce | Pennaeth, Ysgol Gynradd Pil |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Lucy Beard | Swyddog Craffu |
| Stephen Griffiths | Swyddog Craffu Dros Dro |

Datganiadau o Ddiddordeb

Dim.

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

## 101. Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion ac Ehangu Mynediad at Brydau Ysgol Am Ddim mewn Ysgolion Uwchradd

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Ar ôl ystyried yr adroddiad, cyflwyniadau gan Benaethiaid The Bridge ac Ysgol Gynradd Litchard a Phennaeth a staff Ysgol Gyfun Pencoed, a thrafodaeth fanwl gydag Aelod o'r Cabinet, Uwch Swyddogion a Gwahoddedigion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymelliadau a'r cais canlynol am wybodaeth ychwanegol:<br><br>**Argymhellion**<br><br>1. Trafododd y Pwyllgor y gofyniad o fewn y Rheoliadau i leihau faint y bwyd wedi'i brosesu, y camau sy'n cael eu cymryd i leihau'r defnydd o gynhwysion o ffynonellau anghynaliadwy a chynyddu faint y bwyd cynaliadwy o ffynonellau lleol, a chynghorodd Swyddogion y gallent gysylltu â'r prif gyflenwyr i gael rhagor o wybodaeth am gynaliadwyedd. Croesawodd y Pwyllgor y wybodaeth hon a ddarparwyd a gwnaethant **argymell** fod ystyriaeth yn cael ei rhoi i archwilio'r potensial o ddod yn hyrwyddwyr yn rhydd rhag datgoedwigo ac adolygu bwydlenni yn unol â hynny.<br><br>2. Roedd y Pwyllgor yn cydnabod bod staff arlwyo mewn ysgolion yn adnabod y plant yn dda ac yn eu cefnogi yn unol â hynny a thrafododd bwysigrwydd nad yw'r Rheoliadau newydd yn rhwystro eu disgresiwn, a materion gan gynnwys plant nad ydynt yn bwyta gartref, plant sydd â metaboledd uwch ac felly efallai y bydd angen mwy o fwyd, a hefyd gordewdra plentyndod. **Argymhellodd** y Pwyllgor fod yr Awdurdod yn archwilio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru fethodoleg ar gyfer monitro beth mae plant yn ei fwyta ac nad ydynt yn ei fwyta i ddeall a oes angen unrhyw newidiadau i'r bwydlenni er mwyn cydbwyso maeth a newyn.<br><br>3. Cynghorwyd y Pwyllgor gan y Cydlynydd Bwyd Cynaliadwy a'r Swyddog Cymorth Prosiect Bwyd Cynaliadwy o ymgysylltu ag 11 ysgol ar y fwydlen newydd, gan weithio gydag ysgolion i gyflwyno sesiynau coginio a thyfu hefyd, gyda'r nod o gynyddu'r defnydd o brydau bwyd ac **argymhellodd** fod ystyriaeth yn cael ei rhoi i sut y gellid lleihau gwastraff bwyd presennol mewn ysgolion ac archwilio'r potensial ar gyfer ailddosbarthu gwastraff bwyd.<br><br>**Cais am Wybodaeth Ychwanegol**<br><br>4. **Gofynnodd** y Pwyllgor am gopi o fwydlenni newydd ac os yn bosibl, bydd rhai o'r ryseitiau yn cael eu dosbarthu iddynt. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 2 Gorffennaf 2026 |

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

| | |
|---|---|
| | |

## 102. Diweddariad Rhaglen Gwaith

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Flaenraglen Waith yn Atodiad A yn amodol ar gynnwys y canlynol, nodi'r Daflen Gweithredu Monitro Argymhellion yn Atodiad B, nodi y byddai'r Flaenraglen Waith, fel y cymeradwywyd gan y Pwyllgor, yn cael ei hadrodd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol er gwybodaeth.<br><br>**Gofynnodd** y Pwyllgor am y canlynol:<br><br>a) Bod adroddiad ar Bresenoldeb mewn Ysgolion yn cael ei drefnu i gynnwys:<br>i) Safbwynt yr Awdurdod ar erlyn am beidio â mynychu;<br>ii) Cymhellion i gadw plant yn yr ysgol;<br>iii) Amrywiadau mewn presenoldeb rhwng ysgolion.<br><br>b) Bod yr adroddiad Adolygiad o Gymorth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) wedi'i drefnu yn cynnwys yn ei gwmpas, y costau cynyddol ar gyfer cynnig y ddarpariaeth ADY mewn ysgolion.<br><br>c) Trefnu Briffio Aelodau ynghylch Moderneiddio Ysgolion yn y cyfamser, gan fod yr adroddiad wedi'i drefnu ar gyfer Mawrth 2027. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 2 Gorffennaf 2026 |

## 103. Materion Brys

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Dim. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 2 Gorffennaf 2026 |

Er mwyn gwylio trafodaeth bellach a gynhaliwyd ynghylch yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen yma os gwelwch yn dda

Terfynwyd y cyfarfod yn 12:03.

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG A GWASANAETHAU IEUENCTID (PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU PWNC 1 YN FLAENOROL)- DYDD IAU, 2 GORFFENNAF 2026**

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**